Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga

Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023

Dear Cynghorwyr,

## CABINET

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **Steve Greenslade Room, County Hall, Usk** ar **Dydd Mercher, 5ed Gorffennaf, 2023,** am **5.00 pm.**

## AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

2. Datganiadau o Fuddiant

3. DATGANIAD ALLDRO CYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF 2022/23 — 1 - 54

   Rhanbarth/Wardiau Sy'n Cael Eu Heffeithio: Pob un

   Diben: Darparu gwybodaeth i'r Cabinet ar ganlyniadau ariannol terfynol yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, a hynny ar gyfer y gyllideb refeniw, rhaglen gyfalaf a'r arian wrth gefn.

   Awdur: Jonathan Davies, Pennaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog A151)

   Manylion Cyswllt: jonathandavies2@monmouthshire.gov.uk

4. AIL-AGOR MYNWENT TREFYNWY AR GYFER CLADDU — 55 - 74

   Rhanbarth/Wardiau Sy'n Cael Eu Heffeithio: Osbaston

   Diben: Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ail-agor Mynwent Trefynwy ar gyfer claddu eirch 'yn ôl y galw'.

   Awdur: Rhian Jackson, Swyddog Mynwentydd

   Manylion Cyswllt: rhianjackson@monmouthshire.gov.uk

5. CADW PLOTIAU CLADDU — 75 - 88

   Rhanbarth/Wardiau Sy'n Cael Eu Heffeithio: Pob un
   Diben: Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymatal rhag cynnig cadw gofodau ar gyfer claddu (nid yw hyn yn cynnwys plotiau ar gyfer claddu gweddillion wedi'u hamlosgi)

   Awdur: Rhian Jackson, Swyddog Mynwentydd

Manylion Cyswllt: rhianjackson@monmouthshire.gov.uk

6. YMATEB I'R ANGEN BRYS AM LETY – PRYNU EIDDO 89 - 122

Rhanbarth/Wardiau Sy'n Cael Eu Heffeithio: Pob un

Diben: Gofyn am gymeradwyaeth i brynu eiddo preswyl, teuluol yn y Fenni er mwyn galluogi'r Cyngor i liniaru'r pwysau a ddaw yn sgil digartrefedd a'r dibynadwyedd ar Lety Dros Dro anaddas, er enghraifft Gwely a Brecwast.

Awdur: Frances O'Brien – Prif Swyddog, Cymunedau a Lleoedd
Cath Fallon – Pennaeth Mentergarwch ac Animeiddio Cymunedol

Manylion Cyswllt: FrancesOBrien@monmouthshire.gov.uk
Cathfallon@monmouthshire.gov.uk

Yours sincerely,

**Paul Matthews**
**Chief Executive**

**PORTFFOLIOS CABINET**

| Cynghorydd Sir | Maes Cyfrifoldeb | Ward |
|---|---|---|
| Mary Ann Brocklesby | **Arweinydd**<br>Swyddogion Arweiniol – Paul Matthews, Matthew Gatehouse<br><br>Strategaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod Cyfan<br>Adolygu a gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Cyfan<br>Hyrwyddo lleoliaeth o fewn fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol<br>Perthynas â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chymdeithasau llywodraeth leol<br>Perthynas Ranbarthol â Dinas-ranbarthau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Caffael Strategol<br>Cynhyrchu a bwyta bwyd yn lleol, gan gynnwys amaeth-goedwigaeth a garddwriaeth leol | Llanelly |
| Paul Griffiths | **Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd / Dirprwy Arweinydd**<br>Swyddog Arweiniol – Frances O'Brien<br><br>Strategaeth Economaidd<br>Cynllun datblygu lleol a chynllun datblygu strategol gan gynnwys safleoedd tai strategol<br>Cefnogi Canol Trefi gan gynnwys parcio ceir a gorfodi<br>Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu<br>Sgiliau a Chyflogaeth<br>Cysylltedd band eang<br>Meysydd parcio a gorfodi sifil | Chepstow Castle & Larkfield |
| Rachel Garrick | **Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau**<br>Swyddogion Arweiniol – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Jane Rodgers<br><br>Cyllid gan gynnwys y MTFP a'r cylch cyllideb blynyddol<br>Budd-daliadau<br>Technoleg ddigidol a gwybodaeth<br>Adnoddau dynol, y gyflogres, iechyd a diogelwch<br>Tir ac adeiladau<br>Cynnal a chadw a rheoli eiddo | Castell Cil-y-coed |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynllunio ar gyfer argyfyngau | |
| Martyn Groucutt | **Aelod Cabinet ar gyfer Addysg**<br>Swyddogion Arweiniol – Will McLean, Ian Saunders<br><br>Addysg Blynyddoedd Cynnar<br>Addysg statudol pob oed<br>Anghenion dysgu ychwanegol/cynhwysiant<br>Addysg ôl-16 ac oedolion<br>Safonau a gwella ysgolion<br>Dysgu cymunedol<br>Rhaglen cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu<br>Gwasanaethau Ieuenctid<br>Cludiant ysgol | Lansdown |
| Sara Burch | **Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau Byw a Chynhwysol**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders, Jane Rodgers, Matthew Gatehouse<br><br>Digartrefedd<br>Cyflenwi Tai Fforddiadwy a thai'r sector preifat (tai gwag, cynllun prydlesu, benthyciadau gwella cartrefi, grantiau cyfleusterau i'r anabl a thechnoleg ymaddasol)<br>Teithio llesol a Hawliau Tramwy<br>Canolfannau hamdden, chwarae a chwaraeon<br>Datblygu Twristiaeth a Strategaeth Ddiwylliannol<br>Cyfleusterau cyhoeddus<br>Safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, diogelu'r cyhoedd a thrwyddedu | Cantref |
| Ian Chandler | **Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch**<br>Swyddog Arweiniol – Jane Rodgers<br><br>Gwasanaethau plant<br>Maethu a mabwysiadu<br>Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid<br>Gwasanaethau oedolion<br>Diogelu ar draws yr Awdurdod Cyfan (plant ac oedolion)<br>Anableddau<br>Iechyd meddwl a lles<br>Perthynas â darparwyr iechyd a mynediad at ddarpariaeth iechyd | Park |

| | | |
|---|---|---|
| Catrin Maby | **Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matthew Gatehouse<br><br>Datgarboneiddio<br>Cynllunio trafnidiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, priffyrdd a fflyd CSF<br>Rheoli gwastraff, gofal strydoedd, sbwriel, mannau cyhoeddus a pharciau<br>Palmentydd a lonydd cefn<br>Lliniaru, rheoli ac adfer llifogydd<br>Cefn gwlad, bioamrywiaeth, ac iechyd afonydd | Drybridge |
| Angela Sandles | **Aelod Cabinet ar gyfer Cydraddoldeb ac Ymgysylltu**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matt Phillips, Matthew Gatehouse, Jane Rodgers<br><br>Anghydraddoldeb a thlodi cymunedol (iechyd, incwm, maetheg, anfantais, gwahaniaethu, ynysu ac argyfwng costau byw)<br>Ymgysylltu â dinasyddion a hybu democratiaeth gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol<br>Profiad y dinesydd - hybiau cymunedol, canolfan gyswllt a gwasanaeth cwsmeriaid a chofrestryddion<br>Gwasanaethau Etholiadol ac adolygu'r cyfansoddiad<br>Cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata<br>Moeseg a safonau<br>Yr iaith Gymraeg | Y Dref |

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.